

# Safleoedd Arddangos Llaeth Cyswllt Ffermio

## ERW FAWR

### Safle Arddangos: ERW FAWR

- Ceredig Evans a'i deulu

### Swyddog Technegol: Rhys Davies

**Teitl y Prosiect:** Cynyddu'r defnydd o laswellt wedi ei bori a llaeth o borthiant ar system laeth trwy'r flwyddyn

### Cyflwyniad i'r prosiect:

Un agwedd allweddol y mae'r teulu Evans am ei wella ar Erw Fawr yw cyfanswm y cynnyrch o borthiant a glaswellt wedi ei bori gan eu buches Holstein o 250 sy'n lloea trwy'r flwyddyn. Gan fod Erw Fawr o fewn un o ardaloedd gorau Cymru am dyfu glaswellt, mae'r buchod yn Erw Fawr yn y sefyllfa ddefnyddol i ddefnyddio'r cyflenwad helaeth hwn. Yn y gorffennol, roedd Ceredig yn cadw dau grŵp o fuchod wedi eu rhannu yn wartheg cynhyrchiol a rhai llai cynhyrchiol ar sail system padogau. Ond, roedd porthi byffer yn cyfyngu ar faint o laswellt oedd yn cael ei fwyta, ac yn aml yn gadael mwy o weddillion na'r 1,500kgDM/ha a ddymunid. Gan fod y dyrannu padogau yn cael ei wneud yn gyfan gwbl ar sail 'greddf' a'i weithredu gan dîm o staff â phrofiad amrywiol o ran rheoli buchod ar laswellt, mae cyfle mawr i wella'r asesu, dehongli a'r defnydd o'r glaswellt sydd ar gael.

### Amcanion y Prosiect:

Ffocws y prosiect yn ystod hydref 2019 oedd mapio'r seilwaith a rhoi'r llwyfan pori ar feddalwedd rheoli glaswellt AgriNet. Defnyddiodd staff y fferm fesurydd plât hyd at ddiwedd Tachwedd i sicrhau bod y rownd olaf o bori gan y rhai sy'n cynhyrchu lleiaf yn gadael

rhywfaint ar ôl at y gwanwyn i droi iddo yn gynnar ym mis Mawrth. Bydd buchod cynhyrchiol iawn yn llaetha ers hyd at 150 diwrnod yn cael eu cadw dan do trwy'r flwyddyn, gan sicrhau bod y silwair glaswellt a'r india com gwerthfawr a safonol yn cael eu defnyddio yn effeithlon i gynhyrchu llaeth. Yn yr un modd dim ond porfa a dwysfwd o safon uchel yn y parwr fydd yn cael ei roi i fuchod cyfeb o fis Mawrth hyd fis Tachwedd. Gan ddefnyddio astudiaethau gwaelodlin a baratowyd gan Kite Consulting, gobeithir; hyd yn oed mewn buches Holstein sy'n lloea trwy'r flwyddyn, y gellir dangos ei bod yn bosibl cynyddu'r cynnyrch o laswellt sy'n cael ei bori trwy addasiadau ymarferol cymharol hawdd o ran rheolaeth, ymddygiad wrth bori a mesur glaswellt.

### Y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a osodwyd:

- Cynyddu'r cynnyrch o borthiant wedi ei dyfu gartref
- Cynyddu'r defnydd o laswellt sydd wedi ei bori



Ffig 1. Seilwaith y fferm wedi ei fapio gan Presicion Grazing

## LLINELL AMSER A CHERRIG MILLTIR:

### Medi 2019

- Astudiaeth gwaelodlin
- Mapio'r seilwaith padogau presennol
- Sefydlu meddalwedd AgriNet
- Dechrau mesur gyda mesurydd plât
- Samlo pridd

### Tachwedd 2019

- Dod a'r fuches i mewn a chau ardal bori y fferm
- Defnyddio stoc ifanc i reoli'r llwyfan porthiant trwy'r gaeaf
- Mesur y gorchudd wrth gau
- Gwerthuso anghenion hyfforddi staff

### Chwefror 2020

- Mesur gorchudd ar y fferm wrth ddechrau pori
- Cynllunio ar gyfer troi allan – seilwaith a hyfforddi staff

### Mawrth 2020

- Troi'r grŵp sy'n cynhyrchu ychydig allan i'r padogau gyda gorchudd o 2,800kgDM/ha
- Mesur a monitro gorchudd cyfartalog y fferm a'r gyfradd dyfu yn wythnosol

### Mai 27 2020

- Diwrnod agored safle arddangos
- Mesur y glaswellt a dyfwyd a'r defnydd ohono
- kg o solidau llaeth a gynhyrhir fesul ha

### Tachwedd 2020

- Adolygu'r prosiect
- Cyfanswm y glaswellt a dyfwyd ac a ddefnyddiwyd
- Gwerthusiad staff
- Cyfrifo'r cynnyrch o'r porthiant